# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DYDD MAWRTH 26AIN CHWEFROR 2018 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd
Y Cynghorydd G. Oliver – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Andrews, J. Bevan, P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, Mrs T. Parry, a R. Whiting.

Ar y cyd gyda:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), T. Rawson (Cyfreithiwr), S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth Dros Dro), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawniad Addysg), K. Bevan (Gwasanaeth Cyflawniad Addysg), J. Wood (Gwasanaeth Cyflawniad Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion) and E. Sullivan (Prif Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr M. Barry (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr) and Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaeth Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr M.P. James, B. Miles, J.E. Roberts a R. Saralis ac oddi wrth y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad) Mr R. Morgan (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr) a Mrs P.J. Ireland (UCA).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION - 9FED IONAWR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 9fed Ionawr 2018 (rhifau cofnodion 1-13) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

**5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET**

Nodwyd bod ymddiheuriad am absenoldeb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd P. Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, felly nodwyd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol heb sylw.

**6. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

**7. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro'r adroddiad a oedd yn amlinellu Rhaglen Ddrafft Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes o fis Chwefror 2018 hyd at fis Gorffennaf 2018.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y newidiadau canlynol i'r flaenraglen waith, y Strategaeth Addysg i'w symud o 24ain Ebrill 2018 hyd at y 3ydd o Orffennaf 2018 a byddai adroddiad ar Ddirprwyaeth Cefnogaeth Ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y dyddiad hwn. Ymgorfforir data gwaharddiad yn yr adroddiad i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr Mwyaf Bregus yn hytrach na'i dderbyn fel adroddiad ar wahân a'i ychwanegu at y cyfarfod ar 22ain Mai - adroddiad GCA, Ysgolion sy'n Achosi Pryder, a Gwerth am Arian, hefyd i'w ychwanegu at 22ain Mai 2018, nodwyd y byddai'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a drefnwyd ar gyfer y dyddiad hwn bellach yn cael ei gyflwyno fel Blaenoriaethau Cyfarwyddiaeth a byddai'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cael ei gyflwyno fel eitem gwybodaeth. Mewn perthynas â'r cyfarfod ar y 3ydd Gorffennaf 2018 awgrymwyd bod yr aelodau'n ystyried bod yr adroddiad Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eitem gwybodaeth a fyddai'n gwneud y pedair eitem ar gyfer yr agenda hwnnw, y Strategaeth Addysg, Hunanwerthuso, Adolygiad Amcanion Lles 2017- 18, Adolygiad Gwasanaethau Llyfrgell.

Yn ystod y ddadl fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y cais gan y Cynghorydd A. Collis ar gyfer adroddiad ar Ddiogelu mewn Addysg yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn ffigurau camdriniaeth a cham-drin plant yn cael ei gynnwys yn y flaenraglen waith a thrwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol. Awgrymwyd y gellid ymgorffori hyn yn Adolygiad Amcanion Lles 2017-2018 a gynlluniwyd ar gyfer y 3ydd o Orffennaf 2018

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a'r newidiadau arfaethedig a'r ychwanegiadau a grybwyllwyd yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD yn amodol ar y diwygiadau a'r ychwanegiadau uchod y dylid cymeradwyo a chyhoeddi'r rhaglen waith.

**8. ADRODDIADAU'R CABINET**

Ni chafodd adroddiadau’r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**9. PERFFORMIAD CYFNOD ALLWEDDOL 4 /CYFNOD ALLWEDDOL 5 2017**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs L. Perry, Pennaeth Ysgol Trecelyn ac Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Rhoddodd Mrs Perry gyflwyniad a oedd yn manylu ar y cyflawniadau a'r heriau y mae'r ysgolion yn eu hwynebu.

Cyfeiriwyd at yr heriau a wynebwyd gan Ysgol Uwchradd Cwmcarn yn ystod 2016 a 2017 a nodwyd y mesurau a gymerwyd i ddiogelu lles y disgyblion. Mynegodd Mrs Perry ei balchder yn ymdrechion y staff a hefyd yn ymrwymiad y disgyblion o ran gwella presenoldeb a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar Lefel 1 (97%), Lefel 2 (66%) a Lefel 2+ (58%). Hysbyswyd yr Aelodau mai arweinyddiaeth oedd y ffocws mawr yn ystod y cyfnod hwn, gydag eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau fel grym ar gyfer llwyddiant. Pwysleisiwyd hefyd rôl bwysig y chwaraeodd y Llywodraethwyr yn y cynllun datblygu.

Roedd y gwahanol raglenni a gychwynnwyd er mwyn darparu gofal a chymorth dysgu o ansawdd drwy gydol y cyfnod o ansicrwydd hwn, yn fanwl ac yn cael eu nodi fel model o arfer da.

O ran Ysgol Trecelyn, nododd Mrs Perry daith welliant yr ysgol a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Cadarnhawyd canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Lefel 1 (98%), Lefel 2 (93%), Lefel 2amcan (68%) a Lefel 2+ (58%). Eglurwyd graddiad Lefel 2amcan a nodwyd y byddai ond 40% o'r pynciau galwedigaethol yn cael eu corffori yn y set ddata yn unig. Cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 5 - Nodwyd pynciau craidd L5+ a chafodd cyrhaeddiad pwnc nad oeddent yn graidd (Addysg Gorfforol, Dylunio a Thechnoleg ac ati) hefyd eu manylu. Hysbyswyd yr aelodau bod presenoldeb yn Ysgol Trecelyn wedi cynyddu'n raddol dros y 7 mlynedd ddiwethaf, gan gyflawni 94.7% yn 2016/17.

I gloi, amlinellodd Mrs Perry yr heriau sy'n wynebu Ysgol Trecelyn a'r camau a gymerir yn y dyfodol i sicrhau bod y safonau uchel hyn ar gyfer pobl ifanc yn gynaliadwy dros amser.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Perry am ei chyflwyniad a chroesawyd cwestiynau'r Aelodau.

Canmolodd yr Aelodau Mrs Perry am ei hymrwymiad dan amgylchiadau anodd iawn a'i hymdrechion nodedig i sicrhau na chafwyd unrhyw effaith ar y plant yn Ysgol Uwchradd Cwmcarn nag Ysgol Trecelyn, a nodwyd bod yn rhaid wedi bod yn anodd cydbwyso.

Cyflwynodd Mr E. Pryce, Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg yr adroddiad a oedd yn cynghori'r Aelodau o berfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) a Chyfnod Allweddol 5 (16-18 oed).

Cyfeiriwyd yr aelodau at y tabl yn adran 4.1 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y mesurau perfformiad allweddol a ddefnyddiwyd i arfarnu a chymharu'r ystod gyflawn o gyflawniad. O ran set ddata Pwyntiau wedi'u Capio 9, nodwyd bod hyn yn cynnwys dim ond y 9 canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ar gyfer cymwysterau dethol. Cadarnhawyd maint carfanau fel 1,966 (pob disgybl) a 201 (cyfrwng Cymraeg).

Nodwyd sefyllfa Caerffili o ran graddio'r ardaloedd o'r lleiaf i'r mwyaf difreintiedig yn ogystal â'r dangosydd Prydau Ysgol am Ddim (PYDd). Dywedodd Mr Pryce fod perfformiad trothwy cynhwysol L2 disgyblion PYDd wedi gostwng o 5.6pp i 24.5% yn 2017 ond roedd y cyfartaledd cenedlaethol hefyd wedi gostwng o fewn y cyfnod hwn, fodd bynnag, mae bwlch PYDdCaerffili yn gyfyngach nag ar draws Cymru. Cadarnhawyd gwahaniaeth bwlch rhwng y rhywiau yn 43.8% o fechgyn a 50.7% o ferched ar drothwy Lefel 2. Roedd manylion yr ALI yn

y tabl yn adran 4.13 yr adroddiad a nodwyd nifer o rinweddau cadarnhaol o ran ysgolion gwyrdd. Er y derbyniwyd bod heriau o'n blaenau i sicrhau bod gwelliannau'n gynaliadwy yn arbennig o ran ysgolion coch ac oren.

Cyfeiriwyd at y Crynodeb Meincnod PYDda oedd yn cymharu perfformiad ysgolion tebyg a chynghorwyd yr Aelodau bod y nifer o ysgolion Caerffili uwchlaw'r canolrif wedi cynyddu ar gyfer pob dangosydd a phynciau gan hepgor Cymraeg fel iaith gyntaf a gwyddoniaeth. Roedd Caerffili hefyd yn uwch na'r meincnodau ALl ar gyfer perfformiad ar drothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg. Ar gyfer data perfformiad ALl Cyfnod Allweddol 5 cafwyd gostyngiad bach ar ffigyrau'r llynedd (96.6%) ond roedd y garfan hefyd wedi lleihau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Pryce am ei adroddiad a chroesawyd cwestiynau'r Aelodau.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod y data a gasglwyd mewn perthynas â PYDda Bwlch rhwng y rhywiau ond holwyd a gasglwyd unrhyw ddata o ran anghenion arbennig, disgyblion ethnig neu ffoaduriaid a sut mae'r cynnydd ar gyfer y grwpiau hyn yn cael eu olrhain. Cadarnhaodd Mr Pryce fod y grwpiau hyn yn cael eu monitro gan set ddata awdurdod a set ddata ranbarthol, er bod AAA yn fwy anodd ei olrhain yn CA4 gan fod llai o ddisgyblion yn y diffiniad hwnnw ar hyn o bryd. Cyfeiriwyd at gronfa ddata STRIVE a oedd yn caniatáu casglu data mwy cynhwysfawr. Nododd yr Aelodau'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Gofalyddion Ifanc a Phlant sy'n Derbyn Gofal er mwyn nodi unrhyw oedi yn eu haddysg a dod o hyd i'r hyfforddiant cywir i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Holwyd cyrhaeddiad mewn lefelau Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth ynghyd â natur y strategaethau a ddefnyddir i wella'r meysydd hyn. Manylwyd ar rôl y Cynghorwyr Her a'r Rhwydwaith Cefnogi Dysgu Arbenigol a sut roeddent yn gweithio i wella canlyniadau i ysgolion a disgyblion. Esboniwyd y dulliau cydweithredol a'r cydweithrediad rhwng ysgolion drwy dimau bach yn rhannu arferion da gyda'i gilydd er mwyn gyrru gwelliant. Croesawodd yr aelodau'r fenter a chydnabuwyd y byddai ei llwyddiant yn dibynnu'n fawr ar ymgysylltiad llawn yr ysgol a'i harweinyddiaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

**10. CYNLLUN BUSNES GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) 2018-2021**

Cyflwynodd Ms J. Wood, GCA yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y pwyllgor ar Gynllun Ddrafft Busnes GCA 2018-2021 ac Atodiad Awdurdod Lleol 2018-2019 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

Crynhowyd blaenoriaethau'r Cynlluniau Busnes a'r cynnydd a wneir yn eu herbyn a hefyd canlyniadau Arolwg Rhanbarthol Estyn a'r cynnydd a wnaed tuag at eu hargymhellion.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.18 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar uchelgeisiau rhanbarthol y GCA a 4.22 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar dargedau'r cyfnod allweddol rhanbarthol ar gyfer 2017-2020 ynghyd â thargedau presenoldeb yr Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd Ms Wood y gellid dod o hyd i'r targed ar gyfer ysgolion Caerffili yn Atodiad B yr adroddiad yn nogfennau Atodiad 2018-2019 yr ALl. Roedd y dogfennau hyn yn rhoi trosolwg o'r perfformiad a'r prif feysydd i'w datblygu ar lefel awdurdod lleol.

Rhestrwyd y risgiau i gyflwyno'r Cynllun Busnes yn adran 4.26 yr adroddiad a nodwyd bod rhagamcaniadau ariannol ansicr yn ei gwneud yn anodd costio'r Cynllun Busnes yn llawn ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd y byddai gwaith y GCA wrth wella canlyniadau i ddysgwyr bregus yn parhau'n araf oni bai bod mwy o ymgysylltiad â phob partner allweddol ar draws

awdurdodau lleol i sicrhau targedu adnoddau ar y cyd yn effeithiol. O ran y goblygiadau ariannol roedd y GCA dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf wedi gallu cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd y Cyngor drwy leihau'r ymrwymiad cyllido craidd gan 3%. Mae Bwrdd y Cwmni wedi cytuno y gall gynnig arbediad effeithlonrwydd o 2% ar gyfraniad cyllido craidd y llynedd ar gyfer 2018/19 ac effeithlonrwydd dangosol o 2% ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Wood am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau'r Aelodau.

Gofynnwyd am eglurhad o ran 'disgyblion mwy galluog' fel y cyfeiriwyd ato yn y cynllun a'r hyn sy'n cael ei wneud i'w cefnogi. Cadarnhaodd Ms K. Bevan (GCA) bod yna Strategaeth 'Mwy Galluog' a fyddai'n cynnig cymorth i ddisgyblion dawnus mewn ystod ehangach o bynciau nid yn unig bynciau craidd er mwyn ategu a meithrin talentau ymhob maes, er enghraifft cerddoriaeth a chwaraeon. Cadarnhaodd Keri Cole, y Prif Swyddog Addysg fod darn o waith ar y gweill i sicrhau bod gan ddisgyblion dawnus fynediad i'r mathau hynny o gyfleoedd.

O safbwynt yr ymgynghoriad ar y cynllun, holodd yr Aelodau am gynnwys pobl ifanc a dywedwyd wrthynt fod y Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori.

Mynegwyd pryderon bod ysgolion sy'n cael eu categoreiddio fel melyn a gwyrdd, yn derbyn llai o gefnogaeth ac o ganlyniad roeddent mewn perygl o gael eu categoreiddio'n is fel y gwelwyd ar gyfer un ysgol yn dilyn arolygiad diweddar gan Estyn. Roedd Ms Bevan yn cydnabod bod hyn yn risg ac yn diweddaru'r Aelodau ar ymyriadau posibl o safbwynt gwersi a ddysgwyd.

O gofio nad oedd gan y GCA gystadleuwyr gwasanaeth naturiol; Holodd yr Aelodau sut y gellid eu sicrhau eu bod yn derbyn gwerth am arian. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg y byddai adroddiad ar Werth am Arian yn cael ei gyflwyno i graffu maes o law. Cadarnhaodd Ms Bevan fod Estyn yn arolygu'r GCA a oedd wedi darganfod eu bod yn darparu gwasanaeth da fel y gellir sicrhau bod Aelodau'n derbyn gwerth am arian.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

ARGYMHELLWYD i'r Cabinet: -

(i) bod blaenoriaethau a gynhwysir o fewn y Cynllun Busnes a'i Ychwanegiad ac effaith y cynllun ar y cymunedau o fewn yr ardal awdurdod lleol, yn cael eu nodi;

(ii) bod cynnwys Cynllun Busnes GCA yn cael ei gadarnhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 11. CYFALAF ADDYSG 2018/19

Cyflwynodd Mrs Sue Richards, Pennaeth dros dro ar gyfer Addysg, Cynllunio a Strategaeth, yr adroddiad a oedd yn nodi'r cynigion ar gyfer dyrannu Cyllideb Gyfalaf Addysg ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yng nghyd-destun Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd 2018/19-2020/21 cyn i'w ystyried gan y Cabinet ar 14eg Mawrth 2018.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adran 4.3 a 4.4 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu sefyllfa bresennol y gyllideb a ddyrennir ar gyfer gwaith ailweirio trydan mewn ysgolion a oedd ar hyn o bryd yn rhagamcanu tanwariant o tua £500mil. Nodwyd bod tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddaru Asesiadau Risg Tân yn yr Ysgol ac o ganlyniad i drychineb Grenfell bu mwy o ffocws ar y math o adeiladu a'r angen i sicrhau bod digonedd o adranoli mewn adeiladau. Roedd y Swyddog yn rhagweld y gallai'r newid hwn gael

goblygiadau cost posibl, er na ellir mesur yr effaith lawn ar ysgolion ar hyn o bryd. Felly argymhellwyd bod yr Aelodau'n ystyried cadw'r tanwariant rhagamcan at y diben hwn.

Amlinellwyd y dyraniad llefydd ychwanegol ac oherwydd y galw cynyddol am leoliadau? dalgylch yn Ysgol Gynradd Ystrad Mynach, cynigir y dylai'r dyraniad cyfalaf o £223mil ar gyfer 2018/19 a 2019/20 gael ei ddefnyddio i greu estyniad ystafell ddosbarth deulawr ar y safle ysgol bresennol. Nodwyd bod y cynnig hwn wedi'i gefnogi'n llawn gan Lywodraethwyr yr Ysgol.

Nodwyd cynlluniau a gynigiwyd o dan ddyraniadau rheoli asedau, iechyd a diogelwch a diogelwch ysgolion ac o ran dyraniad adnewyddu boeler mewn ysgolion, nododd yr Aelodau ostyngiad o £218mil i £153mil oherwydd gwaith brys a wnaed yn 2017/18 i adnewyddu boeleri mewn 3 o ysgolion cynradd. Esboniwyd y 3 chynllun blaenoriaeth ar gyfer 2018/19 a'r cynigion 50/50 a amlinellwyd y cynlluniau i'w cefnogi.

Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r cynigion a gyflwynir yn arwain at symiau heb eu clustnodi o £29mil yn erbyn cyllideb Diogelwch Ysgolion, £29mil yn erbyn cyllideb Iechyd a Diogelwch a £34mil ar gyfer y prosiectau 50/50 a byddai hyn yn caniatáu i unrhyw amrywiadau prosiect bach neu fidiau brys yn y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei hadroddiad a chroesawyd cwestiynau'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau'r gwahanol brosiectau o fewn Rhaglen Gyfalaf 2018/19 a sefyllfa'r tanwariant yng nghyllideb y Cynllun Trydan Ysgolion. Roedd yr Aelodau'n cefnogi'n llawn y cynnig i gadw'r tanwariant hwn ar gyfer gwaith diogelwch tân strwythurol posibl a chroesawodd flaenoriaethu prosiectau Iechyd a Diogelwch ac ail-ffocysu a diweddaru asesiadau risg tân mewn ysgolion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

ARGYMHELLWYD: -

1) Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion i ddefnyddio'r Gyllideb Gyfalaf Addysg ar gyfer 2018/19;

2) Cabinet yn cymeradwyo cadw'r tanwariant ar Brosiect Cynllun Trydanol yr Ysgol (Tua £500mil) ar gyfer costau rhagamcan o waith diogelwch tân strwythurol y gallai fod ei angen o ganlyniad i'r Asesiadau Risg Tân sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn ysgolion, fel yr amlinellwyd yn adran 4.5 yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 8.00pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain Ebrill 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

________________________

CADEIRYDD